



Sero Net



Cefnogaeth Dysgu a Datblygu

Pam fod hyn yn bwysig?

Sero Net yw'r her fwyaf i dai cymdeithasol a thenantiaid, am y deg i bymtheg mlynedd nesaf. Er mwyn iddo lwyddo, mae'n hanfodol bod staff a thenantiaid yn cael eu haddysgu ac yn cymryd rhan yn y pwnc hwn.

Mae TPAS Cymru wedi datblygu pecyn dysgu a datblygu aml-opsiwn cyffrous sy'n canolbwyntio ar Sero Net ym maes tai.

Amcanion:

1. Sefydliad a thenantiaid yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o Sero Net.
2. Darlun ehangach o pam mae Cymru yn mynd yn Sero Net, a pham mae hynny'n bwysig.
3. Uned gydlynol o staff sy'n gallu trosglwyddo gwybodaeth ar Sero Net i denantiaid a staff eraill, gan arwain at lefel uwch o ymddiriedaeth gyda thenantiaid.
4. Syniadau ar sut i gynnwys eich tenantiaid mewn Sero Net trwy wahanol dechnegau
5. Grŵp addysgedig, gwybodus a chadarnhaol o staff, tenantiaid, ac aelodau bwrdd sy'n gyfarwydd â Sero Net yn barod i wynebu'r her.



Enghreifftiau o Opsiynau Hyfforddi



1. Bod yn gyfarwydd â Net Zero - hyfforddiant rhyngweithiol undydd yn ddelfrydol yn fewnol ond gellir ei gyflwyno ar-lein dros ddau hanner diwrnod os oes angen. Mae'n cynnwys:

1. Sero Net a Chymru:

Amserlenni, costau disgwylidig, heriau a chyfluoedd: Beth sy'n digwydd nawr yn Llywodraeth Cymru a'r sector tai, lle mae Llywodraeth Cymru a'r sector.

2. Pwyntiau Tystysgrif Perfformiad Ynni a Gweithdrefn Asesu Safonol:

ut maen nhw'n cael eu cyfrifo, pam maen nhw'n bwysig, beth maen nhw'n ei olygu mewn tai.

3. Agweddau Cyffredin at Sero Net

- i. Ffabrig yn gyntaf
- ii. Pymphiau gwres
- iii. Dewisiadau eraill yn lle pymphiau gwres
- iv. Pa opsiwn yw'r un iawn i chi?

4. Safon Ansawdd Tai Cymru

- i. Gwahaniaethau rhwng SATC1 a 2
- ii. Yr hyn y dylai tenantiaid a landlordiaid ei ddisgwyl ganddo
- iii. Pwy sy'n talu amdano?

5. Cychwyn eich Llwybr i Sero Net

- i. Arolwg Cartref Cyfan
- ii. Manteision i'ch cymuned
- iii. Manteision i denantiaid

6. Ymgysylltu a Llais Tenantiaid

- i. Rhesymau dros wrthwynebiad i Sero Net
- ii. iSut i'w drin ac ailgyfeirio rhagfarnau

7. Sesiynau grŵp i greu atebion Sero Net ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid.



2. Hanfodion Sero Net - sesiwn awr o hyd. Mae'n cynnwys:

1. Cyd-destun Sero Net – beth ydyw? Pam fod angen i Gymru wneud hyn?
2. Sut mae targedau Cymru yn cymharu â gweddill y DU?
3. Her Tystysgrifau Perfformiad Ynni, costau ynni, a Sero Net
4. Egwyddorion Sero Net – adeilad newydd yn erbyn ôl-osod, ffabrig yn gyntaf, ac ati.



3. Ôl-osod a SATC2 - sesiwn awr o hyd. Mae'n cynnwys:

1. Cyd-destun Sero Net
2. Safon Ansawdd Tai Cymru 2023
3. Rhaglen Ôl-osod Wedi'i Optimeiddio - beth ydyw? A gwersi a ddysgwyd hyd yma
4. Dulliau cyffredin o ôl-osod cartrefi



4. Ymrwymiad Tenantiaid mewn Sero Net – sesiwn hanner diwrnod. Mae'n cynnwys:

1. Cyd-destun Sero Net
2. Trosolwg o ddulliau cyffredin o ôl-osod cartrefi
3. Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd i denantiaid mewn perthynas â Sero Net?
4. Canfyddiadau o'n Pwls Tenantiaid ar Sero Net 2022 a'r argyfwng ynni

5. Pam y dylai tenantiaid gael eu cynnwys yn y drafodaeth Sero Net
6. Sut i ymgysylltu â thenantiaid yn Sero Net
7. Y newidiadau mewn ffordd o fyw ac ymddygiad sy'n gysylltiedig â Sero Net sy'n dod gyda mynd yn Sero Net
8. Beth mae landlordiaid cymdeithasol yn ei wneud?



5. Symud i Gartref Sero Net

1. Beth sydd angen i denantiaid ei wybod, pryd a sut.
2. Cyngor ymarferol i staff ar ba wybodaeth sy'n bwysig, opsiynau ar gyfer fformatau cyfathrebu, amserlen ar gyfer cyfathrebu â thenantiaid (cyn iddynt symud i mewn, ar ôl symud i mewn ac ati)



6. Ôl-osod a Gwaith mewn Cartrefi

1. Yr hyn y mae angen i denantiaid ei wybod pan fydd eu cartref yn cael ei ôl-osod.
2. Pa wybodaeth sy'n bwysig, beth sydd angen ei gynnwys mewn llyfryn, a beth yw'r amserlen?

Costau

Rydym yn cynnig amrywiaeth o opsiynau cost-effeithiol iawn i weddu i'ch anghenion ar gyfer hyfforddiant ar-lein neu fewnol. Cysylltwch i drafod.

www.tpas.cymru

Pam Hyfforddiant TPAS Cymru?

Gwybodaeth Amhleidiol, Ddiduedd

Mae'r wybodaeth a gwmpesir gennym yn ein hyfforddiant Sero Net yn deillio o fewnwelediad, barn a phrofiad tenantiaid.

Profiad a rennir ac arfer gorau ledled y DU

Nid yw'r hyfforddiant hwn yn cymryd agwedd dechnegol, ond yn hytrach mae'n canolbwyntio ar yr hyn y mae Sero Net yn ei olygu mewn gwirionedd i staff a thenantiaid.

Hawdd i'w ddeall a'i dreulio

Rydym yn cynnal cyfarfodydd yn gyson ag arbenigwyr a swyddogion fel y gallwn ddysgu am yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y gofod Sero Net.

Mae ein sesiynau hyfforddi yn ymateb i dirwedd newidiol Sero Net

Mae gan TPAS Cymru ein Swyddog Ymgysylltu Sero Net ein hunain sy'n gallu rhannu mewnwelediad a phrofiad gan y rhai yn y sector.

